| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Chwefror 2018 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Y Cyng. Hugh Evans, Arweinydd /<br>Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

**2.1** I dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2 Bod y Cyngor yn cefnogi blaenoriaethau Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023.

**4. Manylion yr Adroddiad**

**4.1** Mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r aelodau yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cadeirydd)
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Llywodraeth Cymru

**4.2** Dan y Ddeddf hon mae'n rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych gyhoeddi Cynllun Lles erbyn 4 Mai 2018 (deuddeg mis wedi etholiadau'r

llywodraeth leol).

**4.3** Cyn y gellir cyhoeddi'r cynllun mae'n rhaid i fyrddau holl sefydliadau partner y Bwrdd ei gymeradwyo. O ran awdurdodau lleol, mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

**4.4** Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cymeradwyo cyhoeddi'r cynllun ar 16 Ebrill 2018.

**4.5** Mae'r Cynllun Lles hwn wedi'i lunio drwy broses fanwl a chlir o gasglu a dadansoddi tystiolaeth (Asesiad Lles) ac ymgynghoriad manwl gyda'n cymunedau (Sgwrs y Sir).

**4.6** Cafodd drafft cyntaf y cynllun ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori rhwng 30 Hydref 2017 a 22 Ionawr 2018. Roedd y fersiwn drafft yn cynnwys chwe blaenoriaeth, sef:

**i.** Cefnogi 1,000 diwrnod cyntaf bywyd
**ii.** Hyrwyddo canolfannau cymunedol
**iii.** Hyrwyddo lles meddyliol da i bawb
**iv.** Hyrwyddo gwydnwch pobl hŷn
**v.** Gwydnwch amgylcheddol
**vi.** Magu pobl ifanc cryf a llawn dyheadau

**4.7** Ar 14 Rhagfyr mynychodd Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i gyflwyno'r cynllun drafft a thrafod barn yr aelodau ar gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r cwestiynau a drafodwyd a chofnodion yr eitem hon ar y rhaglen ar gael yn Atodiad B.

**4.8** Ar 29 Ionawr 2018 bu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych gwrdd i adolygu adborth yr ymgynghoriad ac i ystyried sut y gall sefydliadau gydweithio er mwyn cael effaith ar les yr ardal. O ganlyniad, bu i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus resymoli nifer y blaenoriaethau yn ôl y gwerth mwyaf. Y blaenoriaethau y mae'r Bwrdd wedi penderfynu eu datblygu yw:

i. Pobl – Lles meddyliol da i bawb
(gan gynnwys y 1000 diwrnod cyntaf ac effaith hyn ar ddyfodol person)
ii. Cymuned – Ymrymuso'r gymuned
(gan gynnwys gwydnwch pobl ifanc a phobl hŷn)
iii. Lle – Gwydnwch amgylcheddol

Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych.

**4.9** Nid oes gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw adnodd penodol i ddarparu prosiectau i gefnogi'r blaenoriaethau hyn, ac nid yw'n credu y byddai creu 'haen' arall o waith yn effeithiol. Felly penderfynwyd y gall arwain, hyrwyddo a chraffu ar waith yn y meysydd hyn o fewn y strwythurau presennol, a cheisio cydgrynhoi a herio'r strwythurau hynny i gwrdd â'r rhaglen sydd wedi'i phennu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?**

Pan fydd gorgyffwrdd rhwng Cynllun Lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Corfforaethol Sir Ddinbych dylid bod cyfle rŵan i gryfhau gwaith sy'n cefnogi

ein blaenoriaethau corfforaethol oherwydd ymrwymiad amlwg sefydliadau partner i weithio tuag at ganlyniadau a rennir.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Oherwydd bod Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i ymgymryd â rôl arweinyddiaeth i gefnogi ei flaenoriaethau, nid oes angen adnoddau ar hyn o bryd.

6.2 Fodd bynnag, mae'n bur y debyg y bydd gwasanaethau eraill yn cael eu heffeithio oherwydd y gofyniad i ganfod cyfleoedd i gydweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y dull hwn yn cael ei hyrwyddo ymhlith staff gan y tîm Cynllunio Strategol, sy'n cefnogi cydweithwyr i nodi budd-ddeiliaid allweddol i'w cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a darparu prosiectau sy'n cefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Mae'r asesiad o'r effaith yn ystyried effaith ein dull gweithredu o ran datblygu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer yr ardal. Rydym wedi ymgysylltu â thrigolion ac wedi gweithio gyda budd-ddeiliaid i lunio tair blaenoriaeth, gan ystyried y camau y mae modd i ni eu cymryd i gefnogi pob un. Mae ein sgôr Datblygu Cynaliadwy yn gryf, ond mae hefyd yn dweud wrthym am ystyriaethau pellach sydd angen eu gwneud wrth i fanylion y cynllun gael eu datblygu a'u darparu gan y Bwrdd.

Bydd y Cynllun Lles Lleol yn ceisio gwella lles meddyliol y boblogaeth, hyrwyddo cymunedau cryf a gwarchod yr amgylchedd – gan sicrhau ein bod yn cydbwyso gwarchod yr amgylchedd gyda'i botensial i gefnogi ein lles personol, cymdeithasol ac economaidd.

Rydym yn benodol wedi ystyried y ddemograffeg iau a hŷn yn y cynllun hwn ac mae arnom eisiau gosod y sylfeini i ddiwallu anghenion sylfaenol y genhedlaeth nesaf (tai addas, swyddi boddhaus y mae pobl ifanc wedi'u paratoi ar eu cyfer ac ati), ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd iechyd da a rhwydweithiau ar gyfer heneiddio'n dda ac felly mae'n rhaid i hyrwyddo'r agweddau hyn. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr amgylchedd a seilwaith (ffisegol a digidol) yn elfennau pwysig ar gyfer lles, ac rydym yn cydnabod bod y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a/neu dlodi yn fwy tebygol o fod heb yr elfennau hyn.

Rydym yn credu bod y blaenoriaethau yn rhai tymor canolig ar hyn o bryd, yn arbennig o ran y camau rydym yn bwriadu eu cymryd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn derbyn cefnogaeth barhaus i fod yn rhan o ddatblygiad a gweithrediad y cynllun. Bydd asesu effaith ein hymyriadau cynnar ar gymunedau yn y tymor hir yn her, ac yn her gyffredin ar draws Cymru.

Mae'r blaenoriaethau arfaethedig yn canolbwyntio ar wydnwch pawb ac yn mynd i annog dulliau amgen i atal problemau rhag codi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn ailadrodd gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn mannau eraill.

Rydym wedi canfod y bydd yr effaith ar y Gymraeg a'r diwylliant yn un niwtral, ond mae Strategaethau Cymraeg sefydliadau partner yn ategu popeth rydym yn ei wneud.

Ar y cyfan, mae'r effaith ar y saith amcan lles yn gadarnhaol. Rydym yn disgwyl y bydd pob prosiect a gynhelir i wireddu'r uchelgais yn cael ei asesu'n unigol o ran yr effaith, i wirio bod yr effaith ar y trydydd cywir i fod yn gadarnhaol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Cyflwynwyd Cynllun Lles drafft Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau Sir Ddinbych ar 14 Rhagfyr 2017. Roedd hyn yn rhan o gyfnod ymgynghori statudol o ddeuddeg wythnos; roedd yr ymgyngoreion statudol eraill yn cynnwys Pwyllgor Craffu Adnoddau Conwy, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

8.2 Cyn datblygu'r cynllun cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda phreswylwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws Conwy a Sir Ddinbych dan brosiect Sgwrs y Sir.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw adnodd ychwanegol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau. Wrth i'r blaenoriaethau gael eu datblygu'n fwy manwl, bydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn asesu dyraniad capasiti staff a/neu adnoddau cyllid naill ai o gyllidebau presennol neu drwy geisiadau grant.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae yna risg nad oes gan bartneriaid adnoddau na blaenoriaethau tebyg ac ati i gefnogi'r prosiectau yr hoffem eu cynnal ar y cyd, sy'n effeithio ar ein gallu i ddarparu.

10.2 I'r gwrthwyneb, mae'r synergedd rhwng cynllun Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Chynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cynnig cyfle i gydgyfrannu adnoddau, goresgyn rhwystrau yn sgil ffiniau sefydliadau a datblygu atebion arloesol ar raddfa fwy. Os nad yw'r cyfleodd hyn yn cael eu harchwilio yna mae perygl y byddem yn colli allan ar eu potensial.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.